

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

Cofnodion Cyfarfod Blynnyddol 2017

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

2/5/2017

Presennol: Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Huw P Roberts, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Alwyn E Jones, Alwyn Roberts, Ian Trow

Arwyddodd y Cyngorwyr y Datganiad Derbyn Swydd ac ymlyniad at y Côt Ymarfer.
Cwblhaodd ac arwyddodd pob Cyngorydd Cofrestr o Fuddiannau

- 1 Cadarnhawyd Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynnyddol 2016.
- 2 Etholwyd **Nia Heledd Jones** yn Gadeirydd am y flwyddyn 2017-18.
- 3 Etholwyd **Alwyn E Jones** yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2017-18.
- 4 Penodwyd is-bwyllgorau:
 - i. Cyllid : **Alwyn E Jones, Huw Antur, Dewi Jones, Alwyn Roberts, Bethan Edwards, Lis Puw.**
 - ii. Mynwentydd: **Nia Heledd Jones, Huw Pierce Roberts, Ian Trow, Karl Jones, Arwel LL Jones, Alan Jones Evans, Bethan Edwards, Lis Puw**
- 5 Enwebwyd cynrychiolydd i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru: **Huw P Roberts**
- 6 Enwebwyd 2 gynrychiolydd ar Bartneriaeth Penllyn: **Huw Antur ac Alwyn E Jones.**
- 7 Adolygwyd a chadarnhawyd Rheolau Sefydlog y Cyngor
- 8 Adolygwyd a chadarnhawyd y Côt Ymddygiad ar gyfer yr aelodau.
- 9 Adolygwyd a chadarnhawyd Rheoliadau Ariannol
- 10 Adolygwyd a chadarnhawyd Polisiau:
 - i. Cydnabyddiaeth Ariannol
 - ii. Defnydd o'r iaith Gymraeg
 - iii. Amgylcheddol
 - iv. Cyfle Cyfartal
 - v. Polisi Rhyddid Gwybodaeth

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

- vi. Polisi Pryderon a Chwynion
- vii. Strategaeth Fuddsoddi

- 11 Cadarnhawyd y Cytundeb rhwng y Cyngor Cymuned fel aelod o Bartneriaeth Penllyn â Chyngor Gwynedd
- 12 Adolygwyd rhestr o eiddo ac asedau'r Cyngor.
- 13 Adolygwyd a chadarnhawyd y trefniadau yswiriant
- 14 Cadarnhawyd Cyfrifon y flwyddyn 2016-17 ar gyfer eu cyflwyno i'r Archwilydd Mewnol. Darllenwyd y Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer Cyngor Cymuned Llanuwchllyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/17 a chytunwyd bod y Cyngor yn cyd-ymffurfio'n llawn.
- 15 Cytunwyd i ofyn i John Roberts weithredu fel Archwilydd Mewnol 2017-18.
- 16 Cadarnhawyd dyddiad cyfarfodydd 2016-17 :

6/6/17	4/7/17	5/9/17	3/10/17	7/11/17	5/12/17
2/1/18	6/2/18	6/3/18	3/4/18		

17. Wrth roi ei hadroddiad ar y flwyddyn a aeth heibio, mynegodd Beryl Hughes Griffiths ei bod wedi bod yn fraint cael bod yn Gadeirydd ar Gyngor Cymuned Llanuwchllyn, a diolchodd i'r Cyngorwyr am eu cydweithrediad a'u hufudd-dod. Diolchodd i'r Clerc ac i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol am eu gwaith. Teimlai fod dull o weithredu trwy argymhellion is-bwyllgorau Cyllid a Mynwent yn ffordd effeithiol iawn o fanlyu ar y materion hyn. Roedd yn falch iawn o gyflawniadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn: mae prynu di-ffib wedi bod yn gyfraniad gwerthfawr i'r gymuned ac wedi profi'r cyd-weithio da rhwng y Cyngor a Phwyllgor y Neuadd. Mae'r Cyngor yn awr yn cyfarfod mewn ystafell bwrpasol braf a diolchodd i Bwyllgor y Neuadd am ddarparu'r adnodd hwn. Teimlai fod y Cyngor hefyd wedi cydweithio gyda'r Capeli a'r Ysgol wrth drefnu seremoni cofio'r milwyr ym mis Medi. Diolchodd i Gwmni Pum Plwy Penllyn am gyd-weithio i sicrhau fod toiledau cyhoeddus ar agor yn y pentref. Roedd yn gam newydd i gael peth addurniadau'r Nadolig yn y pentref eleni. Mae rhai materion sy'n derbyn sylw cyson gan y Cyngor, megis gorlifo wrth Bont Lliw, parcio, a gosod fflatiau Maesypany, ond mae'r Cyngor yn ymdrechu ei orau i ddatrys y problemau hyn.

Dymunodd yn dda iawn i'r Cadeirydd newydd a throsglwyddodd y Gadeiryddiaeth i Nia Heledd Jones.